# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mercher, 17 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
C. Owen, Swyddog Biwro
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod:11.00 yb - 11.30 yb

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 11EG CHWEFROR 2021**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Chwefror 2021, gan ei fod yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Gronfa Cyllid a Dargedir** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Llangain & District Memorial Hall | £20,000.00 |
| Calon y Fferi Community Centre | £3,884.00 |
| Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda – Canolfan Hywel Dda | £13,600.00 |
| Llanelli Railway Goods Shed Trust | £20,000.00 |
| Pontyates RFC | £16,000.00 |

**4. CRONFA LIFOGYDD BUSNESAU SIR GAERFYRDDIN**

Gan gyfeirio at gofnod 3 Cyfarfod Penderfyniadau'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer yr Arweinydd a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2018, ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn cynnig bod y Gronfa Lifogydd Busnesau wreiddiol yn parhau er mwyn helpu busnesau Sir Gaerfyrddin i adfer yn sgil y difrod, yn enwedig o ystyried effaith Covid-19 a'r nifer cynyddol o lifogydd yn sgil stormydd. Cynigwyd ymhellach y dylid diwygio'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol fel y gallai busnesau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt yn ystod y tair blynedd diwethaf gael cymorth ariannol ar gyfer prosiectau rhagweithiol i ddiogelu eu heiddo rhag difrod a achosir gan lifogydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**4.1. cymeradwyo'n ffurfiol fod y Gronfa Lifogydd Busnesau wreiddiol yn parhau er mwyn helpu busnesau Sir Gaerfyrddin i adfer yn sgil y difrod i safleoedd a achoswyd gan lifogydd;**

**4.2 cytuno ar ddiwygiad i'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol i alluogi busnesau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt yn ystod y tair blynedd diwethaf i gael cymorth ariannol ar gyfer prosiectau rhagweithiol i ddiogelu eu heiddo rhag difrod a achosir gan lifogydd yn y dyfodol.**

___________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**